Carcharorion – cwyno

Os yw pethau'n mynd o chwith pan ydych yn y carchar, mae'n bosib y gallwch ddatrys y broblem drwy wneud cwyn. I gwyno, fe allech:

- defnyddio gweithdrefn gwyno'r carchar
- cwyno i'r Bwrdd Monitro Annibynnol
- cysylltu â rhywun tu allan i'r system carchardai.

Ni allwch ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn i gwyno am **pam** yr ydych yn y carchar. Os ydych yn eich cael yn euog am drosedd nad oeddech wedi'i chyflawni, mae'n bosib y gallwch apelio i'r llys. Mae angen i chi siarad â chyfreithiwr ynglŷn â hyn.

Gweithdrefn gwyno'r carchar

Os oes gennych gwyn, y cam cyntaf fyddai siarad â swyddog yn y carchar. Os nad yw hyn yn datrys y broblem, meddyliwch am wneud cwyn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn tri mis o ddyddiad y broblem.

Mae ffurflenni cwyno ar gael ar bob adain ac ni ddylai fod yn rhaid i chi ofyn i swyddog am gopi. I wneud cwyn, mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen. Os ydych am gwyno am achos o wahaniaethu yn eich erbyn, bydd yn rhaid i chi lenwi Ffurflen Cofnodi Digwyddiad Gwahaniaethu (DIRF).Sicrhewch eich bod yn gwneud copi o'r ffurflen. Rhowch y ffurflen yn y bocs cwynion melyn. Un o swyddogion y carchar fydd yn delio â'ch cwyn yn gyntaf. Os nad ydych yn hapus â'r canlyniad, gallwch apelio i rywun uwch ac yna i'r rheolwr. Os nad yw hyn yn eich bodloni, gallwch gwyno'n uniongyrchol i Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf – gweler isod.

Cwynion cyfrinachol

Gallwch wneud cwyn cyfrinachol am:

- driniaeth wael yn y carchar
- ymddygiad staff eich adain
- materion meddygol sensitif.

Ysgrifennwch y cwyn ar y ffurflen gwyno a gwnewch gopi. Rhowch y ffurflen mewn amlen ac ysgrifennwch 'Confidential Access' arni. Seliwch yr amlen a'i rhoi yn y bocs cwynion melyn.

Mae'n bosib na fydd modd cadw eich cwyn yn gyfrinachol os bydd archwiliad yn y carchar.

Mae yna rai pethau nad yw'r carchar yn gallu mynd i'r afael yn uniongyrchol â nhw. Gelwir y rhain yn **faterion a gadwyd**. Mae materion a gadwyd yn cynnwys pethau fel

- parôl

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- alltudiaeth (pan ydych yn cael eich cymryd yn ôl i'ch gwlad eich hun)
- dychweliad (pan ydych yn treulio gweddill eich dedfryd yng ngwlad eich hun)
- gwrandawiadau disgyblaethol.

I gwyno am y pethau hyn, llenwch y ffurflen gwyno arferol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi aros yn hirach am ymateb oherwydd y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) neu Bencadlys y Gwasanaeth Carchardai fydd yn delio â'r broblem. Dylech dderbyn ymateb ysgrifenedig o fewn chwe wythnos.

Os hoffech gwyno am **ofal iechyd** yn y carchar, dylech ddefnyddio gweithdrefn gwyno GIG. Gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon. Nid yw gweithdrefn gwyno GIG yn berthnasol i garchardai preifat oherwydd dylen nhw gael gweithdrefn gwyno eu hun.

Yn Lloegr, mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol (ICAS) yn gallu eich helpu i gwyno am wasanaethau GIG. Mae POhWER yn darparu gwasanaeth ICAS mewn carchardai. Cysylltwch â:

POhWER
iBIC Holt Court South
Jennens Road
Aston Science Park
Birmingham
B7 4EJ
Rhif ffôn: 0300 456 2370
Minicom: 0300 456 2764
Ffacs: 0300 456 2365
pohwer@pohwer.net

Yng Nghymru, mae Cynghorau Iechyd Cymunedol (CHC) yn sefydliadau annibynnol sy'n gallu eich helpu i gwyno am wasanaethau GIG. Cysylltwch â:

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol Cymru
2il Lawr
33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9HB

Rhif ffôn: 0845 644 7814 neu 029 2023 5558
Ffacs: 029 2023 5574
E-bost: enquiries@waleschc.org.uk
Gwefan: www.wales.nhs.uk/sitesplus/899

Cwyno i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Grŵp o bobl annibynnol a benodwyd gan y llywodraeth yw'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Maen nhw'n gweithredu fel corff gwarchod buddiannau er mwyn sicrhau bod carchardai yn cael eu rhedeg yn gywir a bod y carcharorion yn cael eu trin yn deg. Gallwch wneud cwyn i'r Bwrdd Monitro Annibynnol unrhyw bryd. Fodd bynnag,

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ni fyddant yn ystyried eich cwyn oni bai eich bod wedi ceisio datrys y broblem drwy ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r carchar.

I wneud cwyn i'r Bwrdd Monitro Annibynnol, gallwch ofyn a allwch siarad yn uniongyrchol ag aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol neu ysgrifennwch atynt. Gwnewch gopi o'ch llythyr a'i roi mewn amlen wedi'i selio gyda'r geiriau 'Confidential Access' ar y blaen ynghyd â chyfeiriad Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol.

Os yw'r Bwrdd yn cytuno, gallwch siarad ag aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol heb fod swyddog y carchar yn bresennol. Gallan nhw roi'r wybodaeth i staff y carchar. Er bydd y Bwrdd fel arfer yn siarad â chi cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth, nid yw hyn yn digwydd bob amser.

Cysylltu â rhywun tu allan i'r system carchardai

Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf
Mae Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn sefydliad annibynnol. Gallan nhw ymchwilio i gwynion gan garcharorion. Dylech ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r carchar cyn cysylltu ag Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. Os yw'r Ombwdsmon yn cytuno â'ch cwyn, byddant yn argymell datrysiad i'r Ysgrifennydd Cartref neu'r Gwasanaeth Carchardai.

I wneud cwyn i'r Ombwdsmon, llenwch y ffurflen gwyno neu ysgrifennwch lythyr. Rhowch eich rhif carchar ar frig y llythyr. Gwnewch gopi ohono a'i roi mewn amlen wedi'i selio gyda'r geiriau 'Confidential Access' ar y blaen. Anfonwch at:

Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf
Ashley House
2 Monck Street
Llundain
SW1P 2BQ

Rhif ffôn: 020 7035 2876 neu 0845 010 7938 (cyfradd leol)
Ffacs: 020 7035 2860
E-bost: mail@ppo.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ppo.gov.uk

Mae'n bosib na fydd yr Ombwdsmon yn edrych ar eich cwyn yn syth. Os yw'n cymryd mwy na deuddeg wythnos, byddwch yn derbyn adroddiadau cynnydd misol oddi wrthynt.

Cwynion i bobl eraill
Fel arfer, nid oes gwerth cwyno i rywun arall heblaw eich bod eisoes wedi defnyddio gweithdrefn gwyno'r carchar. Os ydych wedi defnyddio'r weithdrefn hon a'ch bod o hyd yn anfodlon, ceisiwch ysgrifennu:

- at eich AS. Gallwch ysgrifennu atynt yn y Tŷ'r Cyffredin, Llundain, SW1A OAA
- at eich cyfreithiwr. Gallech gael cymorth cyfreithiol i dalu am gyngor

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

cyfreithiol.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cynghori yn y carchar. Os ydych yn y carchar, dylech wirio i weld os ydynt yn rhedeg y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn cynnal y sesiynau hyn, gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB agosaf ac ysgrifennwch atynt Os nad ydych yn y carchar, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Defnyddio cyfreithiwr
- Cwynion GIG a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn Lloegr
- Cwynion GIG yng Nghymru
- Cymorth gyda chostau cyfreithiol
- Carcharorion - llythyron
- Carcharorion – cael cymorth ychwanegol

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 7 Rhagfyr 2011, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr